Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Santes Gwenfaen**

**Rhoscolyn**

**Caergybi**

**Sir Fôn**

**LL65 2DX**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011**

**Rhif yr ysgol: 6602163**

**Rhif yr arolygiad: 1890**

**gan**

**Mr Merfyn Lloyd Jones**

**Arolygydd cofnodol o dan gontract i Estyn**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Santes Gwenfaen yn Ysgol Gynradd Gymunedol ddwy-ieithog. Fe`i lleolir ar Ynys Cybi sy`n gwasanaethu pentrefi Rhoscolyn a Bae Trearddur yn ogystal â`r gefnwlad wledig. Mae traean o`r disgyblion yn byw tu allan i`r dalgylch traddodiadol. Mae rhestr aros ar gyfer mynediad i`r ysgol. Mae presenoldeb yn dda ac yn unol â thargedau presenoldeb cenedlaethol. Cydnabyddir nad yw`r ardal yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd.

Mae 103 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr rhwng 4 ac 11 oed, a 12 o blant meithrin rhan amser, yn cynrychioli`r ystod gallu lawn. Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn dosbarthiadau o grwpiau blynyddoedd cymysg. Mae`r disgyblion yn dechrau`n llawn amser ar ddechrau`r mis Medi sy`n dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Saesneg yw`r brif iaith sy`n cael ei siarad ar yr aelwyd. Ers 2006 mae`r ysgol wedi symud o ddysgu Cymraeg fel ail-iaith i ddysgu Cymraeg fel iaith gyntaf.

Mae gan ddau ddisgybl ddatganiad o anghenion dysgu ychwanegol ac mae 18 o blant naill ai ar weithredu ysgol neu weithredu ysgol a mwy ar gyfer cymorth ychwanegol. Mae gan 13% o disgyblion yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Cafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf ym Mehefin 2005. Ers hyn, mae nifer y disgyblion wedi cynyddu 19% ac mae addasiadau sylweddol wedi`u gwneud i adeilad yr ysgol.

Mae’r pennaeth cyfredol wedi bod yn ei swydd ers Medi 2006. Mae hi ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd. Mae`r ysgol yn cael ei rheoli ar hyn o bryd gan athrawes mewn gofal. Yn ogystal â`r pennaeth, mae pedwar athro llawn amser ac un athro rhan amser yn yr ysgol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Santes Gwenfaen yn 2010-2011 yw £3128, sy’n cymharu ag uchafswm o £15,158 ac isafswm o £2685 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Fôn. Gan yr ysgol y mae’r 40ed cyllideb uchaf fesul disgybl o’r 52 ysgol gynradd yn Sir Fôn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r ysgol yn dda am fod:

- y rhan fwyaf o`r disgyblion yn gwneud cyflawniad a chynnydd da;
- mae ansawdd y gofal, cefnogaeth ac arweiniad yn arwain at safonau uchel o les disgyblion;
- mae`r addysgu yn dda ac mae`r disgyblion yn elwa o gwricwlwm diddorol; ac
- mae ansawdd yr arweinyddiaeth a`r rheolaeth yn dda.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae`r ysgol wedi dangos ei gallu i godi safonau;
- y partneriaethau cryf, yn enwedig gyda rhieni a`r gymuned; ac
- ymrwymiad y pennaeth, staff a llywodraethwyr i welliant parhaus.

## Argymhellion

Er mwyn gwella`n ymhellach mae angen i'r ysgol:

A1 wella safonau`r Gymraeg yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2;

A2 datblygu medrau`r disgyblion fel bod ganddynt gwell ddealltwriaeth o`r hyn sydd angen ei wneud i wella`u gwaith;

A3 sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion; a

A4 sicrhau bod cyswllt clir rhwng y broses hunanarfarnu, blaenoriaethau ar gyfer gwella deilliannau a thargedau disgyblion.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae`r rhan fwyaf o`r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Yn y Cyfnod Sylfaen, maen nhw`n gwneud cynnydd da ac yn dod yn ddysgwyr sy`n gynyddol hyderus. Wrth symud drwy CA2, maen nhw`n gwneud cynnydd da yn y rhan fwyaf o`r meysydd dysgu. Maen nhw`n dwyn dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o`r hyn maen nhw wedi`i ddysgu mewn sawl pwnc. Mae`r holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cyflawni`n dda yn erbyn targedau personol ac yn gwneud cynnydd da yn unol â`u gallu, diddordebau a chyflawniad blaenorol.

Mae`r rhan fwyaf o`r disgyblion drwy`r ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cyfathrebu yn Saesneg. Mae`r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus, yn gwrando`n dda ac yn darllen amrywiaeth dda o destunau yn gywir gyda mynegiant. Mae medrau ysgrifennu`r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda drwy`r ysgol, maen nhw`n ysgrifennu at bwrpasau gwahanol ac mewn arddulliau gwahanol gyda medrusrwydd cynyddol.

Mae`r rhan fwyaf o`r disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gadarn mewn ystod o gyd-destunau. Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn.

Mae`r rhan fwyaf yn medru cymhwyso eu medrau yn dda mewn sefyllfaoedd newydd gan ddangos hyder cynyddol wrth iddynt symud drwy`r ysgol.

Mae mwyafrif yn disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau yn yr iaith Gymraeg yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen ac i fyny i flwyddyn 4. Maen nhw`n datblygu geirfa sy`n gynyddol eang ac yn ymateb yn hyderus i`r athro. Mae eu gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn yr iaith Gymraeg yn symud ymlaen yn dda ar ben isa`r ysgol a gan ychydig o`r disgyblion fwy galluog ym mlynyddoedd 5 a 6. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw`r cynnydd gan lawer o ddisgyblion ym mlwyddyn 5 a 6 mor gadarn. Mae ymwybyddiaeth disgyblion o ddaearyddiaeth, hanes a diwylliant Cymru yn dda.

Mae asesiadau statudol athrawon yn 2010 yn nodi bod 100% o ddisgyblion CA1 wedi cyflawni y dangosydd pwnc craidd (DPC) hynny yw, y lefel 2 ddisgwyliedig yn y tri pwnc sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wrth gymharu â`r cyfartaledd teulu 86.4% a`r canran cenedlaethol 81.6%. Yn yr un flwyddyn yn CA2, roedd 100% wedi cyflawni`r DPC ar lefel 4 neu`n uwch yn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wrth gymharu a`r cyfartaledd teulu 71.7% a 78.2% yn genedlaethol. Wrth gymharu ag ysgolion sydd â nifer tebyg o ddisgyblion sydd â`r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, mae`r ysgol yn y 25% uchaf yng Nghymru.

Mae ystyriaeth o`r data dros y 4 blynedd ddiwethaf yn nodi bod perfformiad yr ysgol yn y ddau gyfnod allweddol yn y lefel ddisgwyliedig yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu`n ffafriol ag ysgolion sy`n wynebu heriau tebyg. Mae`r perfformiad ar y lefelau uwch, lefel 3 a 5, yn fwy amrywiol. Mae nifer disgyblion CA1 sy`n cyflawni lefel 3, y lefel uwch, yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyson is na ffigyrau`r teulu, ALl a Chymru gyfan. Yn CA2, mae nifer y disgyblion sy`n cyflawni`r lefel uwch, lefel 5, er yn gyffredinol uwch na ffigyrau`r teulu, ALl a chenedlaethol yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn nodi dirywiad yn Saesneg a gwyddoniaeth ers 2008. Mae`r gwahaniaeth rhwng perfformiad merched a bechgyn a rhwng perfformiadau`r disgyblion sydd â`r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a`r disgyblion nad ydynt yn hawlio prydau ysgol am ddim yn llai na chyfartaleddau`r teulu a chenedlaethol.

Mae perfformiad yn y Gymraeg yn CA1 wedi gwella`n sylweddol dros y 4 blynedd ddiwethaf ac ar lefel 2 mae`r ysgol ymysg yr uchaf yn y teulu yn 2010. Mae`r data yn nodi bod medrau llafar, darllen ac ysgrifennu wedi gwella`n sylweddol ers 2007. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion sy`n cyflawni`r lefel 3 uwch yn y Gymraeg yn parhau i fod yn is na chyfartaleddau`r teulu, ALl a chenedlaethol. Yn CA2, er bod gwelliant rhwng 2007 a 2009, mae perfformiad yn y Gymraeg yn gyson is na chyfartaleddau`r teulu, ALl a chenedlaethol ac yn 2010 yr isaf yn y teulu.

**Lles: Da**

Mae gan yr holl ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd a diogelwch. Mae pob un ohonynt yn deall yr angen i ymgymryd ag ymarfer corff ac i fwyta`n iach.

Mae`r gyfradd bresenoldeb, 95%, yn dda ac yn uwch nag ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol (ALl) a chyfartaleddau cenedlaethol. Mae`r rhan fwyaf o`r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Mae`r holl ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi sy`n cael effaith gadarnhaol iawn ar y safonau maent yn eu cyflawni. Mae`r holl ddisgyblion yn gwrtais ac yn parchu ei gilydd. Mae`r rhan fwyaf yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu ac yn canolbwyntio`n dda wrth iddynt weithio. Mae ymddygiad bron pob un o`r disgyblion yn dda iawn o fewn y dosbarthiadau ac yn ystod amser egwyl a chinio. Mae`r rhan fwyaf o`r disgyblion yn teimlo`n ddiogel yn yr ysgol gan ddweud mai ychydig o fwlio neu aflonyddu sy`n digwydd.

Mae aelodau o`r cyngor ysgol yn ymwneud yn weithredol wrth wneud penderfyniadau ac yn cynrychioli barn y disgyblion yn dda. Mae eu dylanwad ar fywyd yr ysgol yn amlwg.

Mae medrau personol, cymdeithasol a medrau bywyd y disgyblion yn datblygu`n dda ac maen nhw wedi`u paratoi`n dda ar gyfer bywyd a gwaith tu allan i`r ysgol.

Mae mwyafrif y disgyblion, wrth symud drwy`r ysgol, yn datblygu medrau priodol mewn deall pa mor dda maent yn ei wneud. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid ydynt yn glir ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella`u gwaith.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r athrawon yn darparu amrywiaeth dda o brofiadau ysgogol a chyfoethog i fodloni anghenion disgyblion. Mae`r gwersi wedi`u cynllunio`n dda gan ddefnyddio ystod o ddulliau diddorol. Fodd bynnag, nid yw`r gweithgareddau dysgu bob tro`n addas ar gyfer anghenion yr holl ddysgwyr.

Gwneir defnydd da iawn o`r amgylchedd tu allan ac mae addysg yn yr awyr agored yn nodwedd ragorol o waith yr ysgol. Mae`r cyfleoedd hyn yn ogystal ag ystod helaeth o ymweliadau tu hwnt i`r ysgol yn cyfrannu`n sylweddol i ehangu a chyfoethogi profiadau dysgu llawer o`r disgyblion.

Mae`r cynllunio a`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu`r disgyblion yn dda. Ceir cyfleoedd sydd wedi`u cynllunio`n dda i ddisgyblion i ddatblygu eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae`r cynllunio ar gyfer rhifedd yn dda gyda thystiolaeth dda o ddefnydd o fedrau rhifedd mewn nifer o bynciau. Mae medrau meddwl yn chwarae rôl bwysig mewn gwersi. Mae medrau datrys problem a medrau creadigol y disgyblion yn cael eu hyrwyddo`n effeithiol yn enwedig mewn gwyddoniaeth a hanes.

Mae gweithgareddau`r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus.  Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o gynhesu byd-eang, rhaglenni Ysgolion Iach ac Ysgolion Eco yn hyrwyddo`u dealltwriaeth o`r byd ehangach yn llwyddiannus.

Mae`r ddarpariaeth a`r cynllunio ar gyfer datblygiad yr iaith Gymraeg wedi gwella`n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf.  Mae`r pwyslais ar ddysgu`r Gymraeg fel iaith gyntaf wedi bod yn arbennig o effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen, CA1 a phen isaf CA2.  Mae`r ddarpariaeth ar ben uchaf CA2 yn llai effeithiol.  Mae`r cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth disgyblion o`r dimensiwn Cymreig yn dda.

**Addysgu:  Da**

Drwyddi draw, mae ansawdd yr addysgu`n dda gyda rhai enghreifftiau o addysgu rhagorol.  Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel a gwybodaeth bynciol dda a diweddar. Caiff amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant eu defnyddio`n effeithiol ar draws yr ysgol.  Mae cyflymdra bron pob un o`r gwersi yn dda ac mae ystod o ddulliau ac adnoddau yn cael eu defnyddio`n effeithiol i symbylu a herio`r rhan fwyaf o`r disgyblion i wneud yn dda.  Mae`r athrawon wedi sefydlu perthynas waith dda sy`n meithrin dysgu effeithiol.

Mae`r gefnogaeth dda gan gynorthwywyr cymorth dosbarth yn gwneud cyfraniad pwysig i addysg grwpiau o ddysgwyr.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y safonau maen nhw`n eu cyflawni. Mae`r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o`r bwriadau dysgu ac yn eu darparu ag adborth a sylwadau llafar ac ysgrifenedig defnyddiol.  Mae`r rhan fwyaf o`r disgyblion yn ymwybodol o`r targedau sy`n cael eu gosod iddynt; fodd bynnag, nid ydynt bob tro`n gwybod beth sydd angen ei wneud i wella`u gwaith.

Mae gan yr ysgol systemau clir ac effeithlon i dracio a chynnal gwybodaeth ar gynnydd disgyblion.  Mae`r athrawon yn gwneud defnydd da o brofion safonol yn ogystal ag asesiadau`r athrawon eu hun i fesur cynnydd ac i osod targedau heriol a realistig.

Mae modereiddio ar draws yr ysgolion clwstwr yn y pynciau craidd yn galluogi athrawon i gael gwell ddealltwriaeth o`r safonau disgwyliedig.  Mae`r adroddiadau i rieni yn fanwl ac yn ddefnyddiol ac yn gosod targedau cyffredinol ar gyfer gwelliant ac yn cynnwys cyfleoedd i rieni i wneud sylwadau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae’r gofal, cymorth ac arweiniad yn dda. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion yn ogystal ag annog eu hymglymiad yn eu hysgol a`r gymuned ehangach. Mae`r ysgol yn datblygu synnwyr y disgyblion o gymryd cyfrifoldeb yn effeithiol ac mae`u rôl mewn gwneud penderfyniadau yn datblygu`n dda ac yn dod yn elfen bwysig o lais y disgybl yn yr ysgol.

Mae`r ysgol yn cysylltu`n effeithiol gydag amrywiaeth helaeth o asiantaethau a gwasanaethau allanol. Mae`r rhaglenni sefydlu wedi`u teilwra i ddiwallu anghenion disgyblion ac mae`r trefniadau trosglwyddo i`r ysgolion uwchradd yn dda.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae`r gweithdrefnau ar gyfer monitro a`r dilyniant yn dilyn absenoldebau heb ganiatád yn effeithiol.

Mae gweithdrefnau a systemau da ar gyfer nodi, cefnogi a monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae`r rhan fwyaf o`r gefnogaeth ychwanegol yn digwydd yn effeithiol o fewn dosbarthiadau, gyda rhai disgyblion yn cael cymorth ychwanegol allan o`r dosbarth yn achlysurol. Mae`r cynorthwywyr cymorth dosbarth yn cael eu defnyddio`n dda. Mae`r cynlluniau addysg unigol yn briodol ac yn cael eu harfarnu a`u diweddaru`n rheolaidd mewn ymgynghoriad â rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl. Mae`r rhieni, staff a`r disgyblion yn gwneud sylwadau ffafriol iawn ar yr ymdeimlad cryf o ofal, cynhwysiad a pherthyn sy`n bodoli yn yr ysgol. Mae`r cwricwlwm yn gwbl hygyrch pa beth bynnag bo`u rhyw, hil neu grefydd.

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd yn bodloni gofynion statudol ac yn cyfrannu`n dda at ddatblygiad ysbrydol disgyblion drwy gyfleoedd ar gyfer myfyrio ac addoli. Mae`r adeiladau yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol sy`n cael ei gynnal yn dda er mwyn cefnogi`r addysgu a`r dysgu. Mae`r adnoddau o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio`n dda i gefnogi anghenion dysgu`r disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan arweinwyr yr ysgol weledigaeth glir sy`n cael eu rhannu`n effeithiol â staff, rhieni a disgyblion. Mae`r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac wedi sefydlu ethos sy`n ymdrechu at wella. Mae disgwyliadau yn uchel. Yn absenoldeb y pennaeth, mae`r athro â gofal yn sicrhau bod yr holl staff yn deall eu rolau a`u cyfrifoldebau mewn perthynas â strategaethau a chynlluniau`r ysgol. Mae polisïau a strategaethau da ar gyfer gwella wedi cael eu rhoi ar waith ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae corff llywodraethol yr ysgol yn mynd ati i geisio sicrhau bod y weledigaeth strategol ar gyfer yr ysgol yn cael eu rhoi ar waith. Mae`n cael ei hysbysu`n dda am berfformiad yr ysgol o`i chymharu ag ysgolion tebyg ac yn deall y materion sy`n effeithio arno. Mae`r llywodraethwyr yn mynd ati i geisio barn rhieni lle`n briodol, ac yn gweithio`n effeithiol gyda`r pennaeth fel ffrindiau beirniadol. Mae`r corff

llywodraethol wedi mabwysiadu gweithdrefn gwneud cwyn briodol ac yn sicrhau bod rhieni yn cael esbonaid digonol ohoni.

Mae`r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy`n bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae`r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae ymrwymiad yr ysgol i ddatblygu`r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg ac i godi safon y Gymraeg drwy`r ysgol wedi cael effaith sylweddol ar safonau yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen a CA1. Mae`r pwyslais ar ddatblygu ffitrwydd a lles disgyblion drwy addysg yn yr awyr agored yn gryfder arbennig yn yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Drwyddi draw, mae`r broses o hunanarfarnu a chynllunio datblygiad yn dda. Mae`r staff a`r llywodraethwyr wedi ymrwymo i gynnal a gwella safonau gan weithio`n gydwybodol i sicrhau agwedd ysgol gyfan i hunanarfarnu. Maen nhw`n defnyddio amrywaieth o dystiolaeth yn briodol i nodi cryfderau a meysydd i`w datblygu.

Mae data perfformiad yn cael ei ddadansoddi i nodi pa mor dda mae`r disgyblion yn cyfalwni ac i nodi unrhyw dangyflawni sy`n amlwg. Fodd bynnag, nid yw`r trefniadau ar gyfer monitro datblygiadau yn canolbwyntio`n ddigonol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae trefniadau ar waith i geisio barn rhieni a disgyblion ac mae eu sylwadau yn cael eu hystyried o ddifrif. Mae`r corff llywodraethol yn chwarae rhan lawn wrth drafod, gwneud sylwadau a herio canfyddiadau`r adroddiad hunanarfarnu.

Er bod yr ysgol yn nodi rhai meysydd pwysig i`w datblygu nid yw`r cyswllt rhwng yr adroddiad hunanarfarnu, blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol (CDY) a thargedau`r disgyblion ar gyfer gwella`u gwaith bob amser yn glir. Er bod y blaenoriaethau ar gyfer gwelliant sydd wedi`u nodi yn y CDY yn briodol, nid yw`r camau gweithredu yn ddigon penodol o ran sut maen nhw`n debygol o effeithio ar welliant.

Mae enghreifftiau da o arfer addysgu effeithiol yn cael ei rhannu o fewn yr ysgol. Mae`r ysgol yn rhoi sylw da i Reoli Perfformiad ac mae aelodau staff yn cael pob cyfle i ennill medrau newydd. Mae tystiolaeth dda o effaith yr hyfforddiant ar ganlyniadau`r disgyblion. Mae`r gymuned ddysgu proffesiynol effeithiol o fewn yr ysgol a thu hwnt yn galluogi staff i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol ac yn llwyddiannus. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau.

Mae`r ysgol wedi mynd i`r afael â`r holl argymhellion o`r arolygiad diwethaf ac wedi gwneud cynnydd da mewn gwella canlyniadau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r partneriaethau gyda rhieni a gofalwyr yn effeithiol. Mae`r ysgol yn cyfathrebu`n rheolaidd â nhw ac maen nhw`n gwerthfawrogi`r wybodaeth am gynnydd eu plant.

Mae cysylltiadau cryf â`r feithrinfa leol a leolir ar faes yr ysgol ac mae trefniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a`r ysgolion uwchradd lle mae`r

disgyblion yn trosglwyddo iddynt. Mae cydweithio adeiladol yn bodoli ag ysgolion cynradd eraill yn y dalgylch.

Mae`r ysgol yn parhau i ddatblygu cysylltiadau â`r gymuned lleol ac mae busnesau lleol yn cefnogi gwaith yr ysgol. Daw aelodau o`r gymuned i`r ysgol i rannu profiadau gyda`r disgyblion ac mae ymweliadau â`r gymuned yn cyfoethogi`r cwricwlwm yn effeithiol. Mae`r partneriaethau helaeth gyda darparwyr addysg yn yr awyr agored yn gryfder arbennig. Mae`r ysgol yn flaenllaw mewn creu deunydd a datblygu rhaglen astudio yn seiliedig ar fywyd gwyllt, yr amgylchedd a datblygiad a chynaliadwyedd Afon Menai.

Mae`r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wasanaethau yr awdurdod lleol ar gyfer datblygiad staff a chodi safonau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli'n dda. Mae nifer digonol o athrawon a staff cefnogi cymwysedig. Maen nhw`n cael eu defnyddio`n effeithiol. Mae`r ysgol yn nodi ac yn bodloni anghenion yr holl staff drwy weithdrefnau rheoli perfformiad effeithiol. Mae`r athrawon yn gwneud defnydd da o amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA). Mae`r trefniadau yn bodloni anghenion yr ysgol yn effeithiol.

Mae adeiladau`r ysgol yn cael eu trefnu a`u rheoli`n dda iawn. Mae amrywiaeth dda o adnoddau dysgu. Mae`r rhain yn cael eu rheoli a`u defnyddio`n dda. Mae`r buddsoddiad i wella safonau`r adeiladau, yn enwedig y cyfleusterau dysgu awyr agored, yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu`r disgyblion. Mae`r ysgol yn rheoli ei chyllid yn dda. Mae`r penderfyniadau gwariant yn cael eu cysylltu`n glir â blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

Mae rheolaeth yr ysgol yn gost-effeithiol ac yn effeithlon. Wrth ystyried y cynnydd da gan y rhan fwyaf o`r plant, y lefel uchel o ofal, cefnogaeth ac arweiniad a ddarperir a`r defnydd effeithlon o`r ystod eang o adnoddau, mae`r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafodd pedwar deg holiadur rhieni eu dychwelyd gyda phob un yn datgan eu bod yn fodlon neu`n fodlon iawn â`r ysgol a bod ansawdd yr addysgu`n dda. Ychydig o rieni sy`n anghytuno nad yw`r gwaith cartref sy`n cael ei roi yn adeiladu`n dda ar yr hyn mae`u plentyn yn dysgu yn yr ysgol. Mae bron pob un yn cytuno bod eu plentyn yn hoffi`r ysgol, yn teimlo`n ddiogel ac yn ymgartrefu`n dda. Maent i gyd yn credu bod eu plentyn yn cael anogaeth i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff rheolaidd. Mae bron pob rhiant yn credu bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Maent i gyd yn dweud bod staff yn disgwyl i`r plant weithio`n galed ac i wneud eu gorau. Mae bron pob rhiant yn dweud bod plant yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol a`u bod yn cael eu trin yn deg ac yn dangos parch atynt. Mae llawer o rieni yn dweud bod eu plant yn cael cymorth priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol a`u bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ond mae ychydig yn anghytuno. Mae bron pob un yn cytuno bod eu plant wedi cael eu paratoi`n dda ar gyfer symud i`r ysgol nesaf. Mae`r rhan fwyaf yn dweud eu bod yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion ac yn teimlo`n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem. Mae bron pob rhiant wnaeth fynegi barn yn credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda neu`n dda iawn.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Roedd pedwar deg naw o ddisgyblion CA2 wedi cwblhau`r holiadur. Mae pob un yn dweud eu bod yn teimlo`n ddiogel yn yr ysgol ac mae bron pob un yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu`n gofidio. Mae llawer yn meddwl bod yr ysgol yn delio`n dda ag unrhyw fwlio ond mae ychydig yn anghytuno. Mae pob un yn dweud bod yr athrawon a`r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac mae bron pob un yn dweud eu bod yn gwybod beth i`w wneud a phwy i ofyn as ydynt yn gweld y gwaith yn galed. Mae`r rhan fwyaf o`r disgyblion yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol ond mae lleiafrif yn teimlo nad yw eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith. Mae bron pob un yn dweud bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith a bod yr ysgol yn rhoi llawer o gyfleoedd iddynt i wneud ymarfer corff rheolaidd a pha mor bwysig ydy hi i gadw`n iach. Mae mwyafrif y disgyblion yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a`u bod yn gallu mynd ati i wneud eu gwaith ac mae llawer yn dweud bod plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Merfyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Goronwy Morris | Arolygydd Tîm |
| Mrs Doli Edwards | Arolygydd Lleyg |
| Mr Dylan Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Miss Sara Roberts | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw’n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy’n gofyn am gopi o’r adroddiad. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |